Ysgolion Esgobaeth Llanelwy

Diocese of St Asaph Church Schools

YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

ESGOBAETH LLANELWY / DIOCESE OF ST ASAPH

Mehefin 15fed, 2017

Y Cynghorydd Gareth Thomas
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
LL55 1SH

Annwyl Gynghorydd Thomas

Mae cynlluniau Cyngor Gwynedd ar ddyfodol addysg yn Y Bala a Phenllyn wedi bod yn destun llawer o drafodaeth a dadlau. Gwraidd calon unrhyw ysgol ydy'i phlant a'u hanghenion nhw ydy'r ystyriaeth bwysicaf.

Esgobaeth Llanelwy ydy Ymddiriedolwyr Ysgol Beuno Sant a'u gobaith nhw o'r cychwyn cyntaf oedd y byddai'r ysgol newydd yn cynnig y cyfleoedd a'r profiadau gorau posib i blant Y Bala a Phenllyn. Bu cryn ddadlau ynglŷn â'r ysgol newydd a sut un roedd hi am fod - ein gweledigaeth ninnau oedd am addysg wedi'i wreiddio yn niwylliant, iaith a threftadaeth Cymru, a'r rheini wedi'u seilio ar werthoedd Cristnogol.

Fodd bynnag, er gwaethaf bwriadau gorau swyddogion a chabinet Cyngor Gwynedd a'r Esgobaeth fel partneriaid yn y prosiect hwn, dydyn ni heb lwyddo i berswadio Cyrff Llywodraethol y tair ysgol i gefnogi'n cynllun. Gan nad ydyn ni'n un o'r cynigwyr, mae'n ein gadael ninnau yn gyfyng ein hopsiynau i warchod a diogelu'r prosiect. Os parhawn fel y bwriadwyd, fe fyddwn yn symud ymlaen heb gefnogaeth y Cyrff Llywodraethol, rhywbeth na all fod yn beth iach i sefydlogrwydd yr ysgol newydd. Mae'r Esgobaeth yn cydnabod y gall gweithredu'r cynlluniau brofi'n afresymol o anodd. Os na barhawn fel y bwriadwyd, fe fydd rhaid i'r awdurdod ddechrau ar ymgynghoriad statudol newydd, gyda'r holl risgiau a'r oedi daw yn sgìl hynny. Ceir hefyd y cwestiwn o gyllid. Fe ddyfarnwyd hyn ar gyfer ysgol Eglwys newydd. Dydyn ni ddim yn dymuno gweld y prosiect yn colli'r buddsoddiad allweddol hwnnw mewn ysgol newydd.

Anghenion disgyblion y presennol a'r dyfodol yn yr ysgol newydd sy'n flaenoriaeth inni; mae'r Esgobaeth yn dymuno cefnogi ffordd ymlaen sy'n diogelu'r buddsoddiad o £10miliwn ac sy'n caniatáu i'r ysgol agor cyn gynted â phosib er mwyn i blant Y Bala a Phenllyn, ynghyd â'r gymuned ehangach, elwa.

Fe fuon ni'n trafod y mater am yn hir gyda swyddogion Cyngor Gwynedd, aelodau etholedig lleol a Chadeiryddion yr Ymddiriedolwyr ac roedd pawb yn gytûn y dylen ni weithio gyda'n gilydd i ddod â'r mater hwn i gasgliad boddhaol yn y pen draw.

Swyddfeydd yr Esgobaeth, Stryd Fawr, Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 0RD
Diocesan Offices, High Street, St Asaph, Denbighshire LL17 0RD
☎ 01745 532593 01745 530078 E rosalindwilliams@churchinwales.org.uk
www.dioceseofstasaph.org.uk

Mae Esgobaeth Llanelwy yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg

The Diocese of St Asaph welcomes correspondence in Welsh or English

Er mwyn galluogi hyn y ddigwydd, fe fydd yr Esgobaeth, mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd, yn cytuno â chais y Cyrff Llywodraethol a'r gymuned ehangach ynghylch statws y campws dysgu 3-19 newydd. Bydd hyn yn caniatáu cynnal ymgynghoriad newydd ond hefyd yn gadael i'r gwaith adeiladu fynd rhagddo, gan ddiogelu'r buddsoddiad yn Y Bala a Phenllyn.

Ein dymuniad ni ydy gweithio ar y cyd â phob un o'r rhanddeiliaid i greu ysgol sy'n cynnig i bob plentyn y cyfleoedd gorau un i ddysgu a chyflawni eu llawn botensial.

Yn gywir

Rosalind Williams

Rosalind Williams
Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes